# Cofrestrfa Tir EM

## Adneuwch eich gweithredoedd eiddo a helpu i gadw'n treftadaeth archifol

Mae'n debyg eich bod yn darllen y daflen hon oherwydd bod rhywun – eich cyfreithiwr, rhoddwr benthyg morgais neu Gofrestrfa Tir EM efallai – yn credu y gallai gweithredoedd eich eiddo fod o bwysigrwydd hanesyddol.

**Beth yw gweithredoedd eiddo?**
Cyn cyflwyno cofrestru tir, y dull o bennu pwy oedd yn berchen ar eiddo oedd cyflwyno tystiolaeth ddogfennol a oedd yn dangos bod y perchennog a, lle bo angen, y cyn-berchnogion, wedi dal y tir am gyfnod penodol o amser. Mae hyn yn golygu fel arfer bod cyfres o drawsgludiadau a dogfennau cysylltiedig e.e. morgeisiau ac ewyllysiau, a elwir yn 'weithredoedd eiddo', ac sy'n dangos hanes perchnogaeth ac yn cwmpasu cyfnod hirach nag sydd ei angen yn aml i brofi teitl, ar gael ar gyfer pob eiddo.

**Pam dylem ni eu cadw?**
Ar ôl i'r teitl i'r eiddo o dan sylw gael ei gofrestru gyda Chofrestrfa Tir EM, fel arfer nid oes angen cael yr hen ddogfennau teitl – a elwir yn 'weithredoedd cyn-gofrestru' – i brofi teitl. Ond nid yw hyn yn golygu nad oes ganddynt unrhyw werth hanesyddol neu gyfreithiol. Yn aml iawn, mae gweithredoedd eiddo yn cynnwys llawer o wybodaeth am berchnogaeth tir a hanes teuluol ac o ddiddordeb arbennig i haneswyr ac achyddion lleol. Maent yn rhan o'n treftadaeth lawn cymaint â'n hadeiladau a thirluniau hanesyddol.

**Pam dylwn i ystyried adneuo fy ngweithredoedd eiddo?**
Trwy roi neu roi ar fenthyg y gweithredoedd cyn-gofrestru i'ch archifdy lleol neu archifdy priodol arall, byddwch yn helpu i gadw rhan bwysig o'n treftadaeth archifol. Byddwch hefyd yn sicrhau os bydd ymholiad yn codi ynglŷn â theitl cofrestredig eich eiddo, sy'n annhebygol o ddigwydd, bod y dogfennau sydd wedi eu hadneuo ar gael i'w harchwilio.

**Sut mae mynd ati i wneud hyn?**
Os hoffech wneud cais i adneuo eich gweithredoedd cyn-gofrestru gyda'r archifdy priodol, llenwch un o'r ffurflenni cytundeb argraffedig a welir gyferbyn a'i hanfon i'ch archifdy lleol gyda'r gweithredoedd. Fel arall, gallwch fynd â'r gweithredoedd i archifdy neu wasanaeth archifau eich awdurdod lleol. Dylech geisio cyngor gan eich cyfreithiwr neu drawsgludwr trwyddedig cyn adneuo'r gweithredoedd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw werth cyfreithiol parhaol ganddynt, ac wrth lenwi'r ffurflen.

Fel y gwelwch o ddwy ran y ffurflen, dylech ddewis rhwng rhoi'r gweithredoedd fel rhodd neu eu rhoi ar fenthyg. Byddai bob amser yn well gan archifdai dderbyn gweithredoedd fel rhodd lwyr ond mae eu rhoi ar fenthyg yn briodol os ydych yn teimlo y byddwch yn dymuno neu'n gorfod eu tynnu yn ôl rywbryd yn y dyfodol. Fel y mae'r ffurflen yn egluro, os ydych yn rhoi'r gweithredoedd fel rhodd, rydych hefyd yn caniatáu i'r archifdai ddinistrio gweithredoedd nad ydynt o unrhyw werth ymchwil yn eu barn.

Os oes angen cyngor arnoch i ddod o hyd i'r archifdy i anfon y gweithredoedd ato, neu os oes gennych unrhyw gwestiwn arall, gallwch gysylltu â Chymdeithas Archifau Prydain. Mae Cymdeithas Archifau Prydain wedi cyhoeddi rhestr gyflawn o archifau a gwasanaethau archifau awdurdodau lleol ynghyd â'u cyfeiriadau ar ei gwefan.

**Beth sy’n digwydd ar ôl imi arwyddo’r ffurflen ganiatâd?**
Bydd yr archifdy sy’n derbyn eich gweithredoedd yn eu hystyried yn ofalus ac, er mwyn arbed lle storio gwerthfawr, mae’n bosib y bydd am gael gwared ar unrhyw ddogfennau sy’n rhan o’r gweithredoedd nad oes unrhyw werth ymchwil iddynt ym marn yr archifdy. Bydd y dull o gael gwared ar y rhain yn dibynnu ar y ffurflen ganiatâd a ddefnyddiwyd gennych. Os ydych wedi rhoi’r gweithredoedd ar fenthyg, bydd yr archifdy yn dychwelyd atoch y dogfennau nad ydynt am eu cadw. Os ydych wedi rhoi’r gweithredoedd fel rhodd lwyr, caiff y dogfennau eu dinistrio. Os hoffech i’r archifdy ddychwelyd atoch unrhyw weithredoedd eiddo nad ydynt am eu cadw, dylech ddileu adran 2 rhan B y Cytundeb.

# Cysylltiadau Defnyddiol

Cymdeithas Archifau Prydain
d/o Finsbury Library
245 Johns Street
London EC1V 4NB
Ffôn: 020 7833 0428
Ffacs: 020 7833 0416
Ebost:
info@britishrecordsassociation.org.uk
www.britishrecordsassociation.org.uk

Cofrestrfa Tir EM
Trafalgar House
1 Bedford Park
Croydon CR0 2AQ
www.cofrestrfatir.gov.uk

Cymdeithas y Cyfreithwyr Cymru a Lloegr
The Law Society’s Hall
113 Chancery Lane
London WC2A 1PL
Ffôn: 020 7242 1222
Ffacs: 020 7831 0344
www.lawsociety.org.uk

Cymdeithas Archifau a Chofnodion
Prioryfield House
20 Canon Street
Taunton
Somerset TA1 1SW
Ffôn: 01823 327 077
Ebost: ara@archives.org.uk
www.archives.org.uk

Cynhyrchwyd y canllaw hwn gan weithgor a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gymdeithas y Cyfreithwyr, Cofrestrfa Tir EM, Cymdeithas Archifau a Chofnodion a Chymdeithas Archifau Prydain

# Ffurflenni cytundeb ar gyfer adneuo Gweithredoedd Eiddo

**A. Ffurflen gytundeb ar gyfer adneuo Gweithredoedd Eiddo – Rhoi Benthyg**

1 Rydym ni/Rwyf fi, o

yn rhoi ar fenthyg y gweithredoedd a'r dogfennau eiddo mewn perthynas

â i Archifdy

2 Rydym ni/Rwyf fi yn gofyn i unrhyw weithredoedd y pennir nad ydynt yn briodol i'w cadw ar ôl iddynt gael eu harchwilio gael eu dychwelyd atom/ataf i'r cyfeiriad a ddangosir uchod.

3 Rydym ni/Rwyf fi yn gofyn ichi roi inni/imi fanylion y cyfeirnod/rhif derbynyn a roddir i'r dogfennau a adneuir gyda chi.

Adneuwr Cyntaf

Ail Adneuwr

neu*

**B. Ffurflen Gytundeb ar gyfer adneuo Gweithredoedd Eiddo – Rhodd Lwyr**

1 Rydym ni/Rwyf fi, o

yn rhoi'r gweithredoedd a'r dogfennau eiddo mewn perthynas â

i Archifdy

2 Rydym ni/Rwyf fi yn caniatáu i unrhyw weithredoedd neu ddogfennau y pennir nad ydynt yn briodol i'w cadw ar ôl iddynt gael eu harchwilio gael eu dinistrio.

3 Rydym ni/Rwyf fi yn gofyn ichi roi inni/imi fanylion y cyfeirnod/rhif derbynyn a roddir i'r dogfennau a adneuir gyda chi.

Adneuwr Cyntaf

Ail Adneuwr

* dilëwch un o'r ddau